**Sesiwn 1999-200 Rhif 25**

## PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 ADRAN H

## COFNOD O'R PLEIDLEISIAU A'R TRAFODION AR GYFER DYDD MAWRTH, 19 HYDREF 1999-10-20

**Dechreuodd y sesiwn am 2pm**

**2.00pm**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**

Atebwyd y chwe chwestiwn cyntaf

**2.29**

**Mater o Drefn**

Cododd Jocelyn Davies fater o drefn ynghylch geiriad y ddadl a gyflwynir yfory ar y Cynllun Corfforaethol ac awgrymodd y dylid gohirio'r ddadl oherwydd yr anawsterau a gafwyd yn cael gafael ar y deunydd priodol oedd ei angen i baratoi ar gyfer y ddadl.

Cadarnhaodd y Trefnydd bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Gwell Cymru wedi eu postio i'r Fewnrwyd bythefnos yn ôl.

**2.33pm**

**Mater o Drefn**

Cododd Ieuan Wyn Jones fater o drefn ychwanegol ynghylch geiriad y Cynllun Corfforaethol gan ychwanegu ei fod yn falch o weld gwybodaeth fanylach yn y Rhagolwg.

Cadarnhaodd y Llywydd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu papurau mewn pryd.

**2.34pm**

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

Cytunwyd ar y Datganiad Busnes.

**2.36pm**

**Cynnig o Gerydd: (cyflwynwyd gan Dafydd Wigley, Nick Bourne, Mike German, Rhodri Glyn Thomas, Peter Rogers a Mick Bates)**

Mae'r Cynulliad hwn yn galw am geryddu Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am ei methiant i gyflwyno neu sicrhau cyflwyniad unrhyw fesurau a nodwyd yn y cynnig a basiwyd yn unfrydol ar 15 Medi 1999, ac yn arbennig am arwain ffermwyr llaeth i gredu bod £750,000 ar gael trwy gynllun prosesu lloi.

Cynhaliwyd pleidlais gadarnhau. Dyma’r canlyniad:

O blaid 30

Yn erbyn 27

Ymatal 1

Pasiwyd y cynnig

**3.01pm**

**Mater o Drefn**

Cododd Nick Bourne fater o drefn yn gofyn i’r Prif Ysgrifennydd pa gamau y byddai’n eu cymryd yn dilyn pasio’r cynnig uchod o gerydd. Dywedodd y Prif Ysgrifennydd bod Cyfarfod o’r Cabinet wedi’i drefnu i drafod y mater.

**3.02pm**

**Dadl i Arnodi Dogfennau Strategaeth Ewropeaidd ar gyfer eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd**

Cynnig bod y Cynulliad:

i. yn nodi gyda chymeradwyaeth y Ddogfen Raglennu Sengl ar gyfer ardal Amcan 1 y Gorllewin a'r Cymoedd a'r Rhaglen Weithredu ddrafft ar gyfer ardal Amcan 3 y Dwyrain, a

osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 1999;

ii. yn awdurdodi'r Prif Ysgrifennydd i'w cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 29 Hydref 1999, gyda'r gwelliannau hynny y mae'n rhaid wrthynt i ateb gofynion technegol y Comisiwn; a'i fod

iii. yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd gynted ag y gall i osod gerbron y Cynulliad, yn y Gymraeg a'r Saesneg, destunau terfynol y dogfennau a gyflwynwyd i'r Comisiwn; a

Bod y Cynulliad yn nodi gyda chymeradwyaeth ddrafft diweddaraf y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 1999, a'i fod yn gofyn i'r Prif Ysgrifennydd i'w datblygu ymhellach yng ngoleuni'r cyllid Ewropeaidd ychwanegol a ddaw i Gymru a'r angen i gymhathu cymaint ag y gellid y polisïau a'r rhaglenni a ariennir gan Ewrop gyda pholisïau a rhaglenni domestig.

**Derbyniwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**

**1.** Michael German (Dwyrain De Cymru) ac Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);

Ychwaneger y cymal newydd canlynol ar ôl y cymal ii presennol a'u hailrifo yn unol â hynny:

"iii. Mae angen cynnwys yn nhestun terfynol y ddogfen ymrwymiad cadarn i ddatblygu entrepreneuriaeth yng Nghymru, gan gynnwys, yn benodol, y ddau amcan canlynol:

newid agweddau at ymddygiad entrepreneuraidd, a’i hyrwyddo, ymhlith yr holl gyfranddeiliaid ar bob lefel ac yn enwedig ymhlith pobl ifanc er mwyn dygymod â newid a chynyddu potensial economaidd i’r eithaf

ehangu’r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod profiad entrepreneuraidd yn hawl i bob plentyn a pherson ifanc"

**Gwelliant 2**

2. Phil Williams (Dwyrain De Cymru), Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)

a Mike German (Dwyrain De Cymru);

Ar ôl cymal iii): dileer ‘a’ ac ychwaneger:

iv) yn croesawu’r ymrwymiad blynyddol i ddarparu gwariant cyhoeddus fel y’i cyhoeddir yn Nhabl 3.2 o’r Ddogfen Raglennu Sengl ar gyfer Amcan 1, ac mae’n cydnabod y bydd cyfanswm y gyllideb a nodir yn y Tabl hwn, ynghyd â’r cyllidebau a neilltuir ar gyfer Amcanion 2 a 3, o’u defnyddio’n effeithiol yn unol â’r blaenoriaethau a nodir yn y Ddogfen Raglennu Sengl, yn arwain at adfywiad economaidd a chymdeithasol yng Nghymru,

v) yn nodi bod gweithredu’r rhaglen hon yn dibynnu ar y ddealltwriaeth glir y bydd y Cynulliad yn cael cyllid digonol, sy’n ychwanegol at grant bloc Barnett, oddi wrth y Trysorlys, fel bod yr arian cyhoeddus cyfatebol y mae ei angen ar gael ynghyd â'r holl arian a neilltuwyd i Gymru gan yr UE o’r gronfa strwythurol, a

vi) yn ceisio datganiad diamwys cyn 29 Hydref 1999 oddi wrth y Prif Ysgrifennydd na welir gostyngiad yn y gyllideb gynlluniedig ar gyfer materion megis Iechyd, Addysg, y Gwasanaethau Cymdeithasol, a’r Amgylchedd, sy’n cael eu hariannu o’r bloc, er mwyn manteisio’n llawn ar gyllideb y gronfa strwythurol a nodir yn Nhabl 3.2.

Cynhaliwyd pleidlais:

Ni chafodd Gwelliant 1 ei basio.

Pasiwyd Gwelliant 2.

Pasiwyd y Cynnig fel y’i diwygiwyd

**Pwnc ar gyfer Dadl Fer (i gychwyn erbyn 5pm)**

Christine Humphreys (Gogledd Cymru); Clefyd Alzheimer a rhoi Aricept ar Brescripsiwn.

Daeth y sesiwn i ben am 5.25pm

**Cynhelir cyfarfod llawn nesaf y Cynulliad ar 2.00pm ddydd Mercher, 20 Hydref 1999**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**Dogfennau a Osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ers cyfarfod llawn diwethaf y Cynulliad**

**Dogfennau a Osodwyd ar 13 Hydref 1999**

The Economic and Social Regeneration for West Wales and the Valleys

Objective 3 Operational Programme for East Wales

**Dogfennau a Osodwyd ar 14 Hydref 1999**

National Economic Development Strategy

The National Assembly for Wales Members' Additional Voluntary Contributions Scheme